Elfennau Naturiol

Trosolwg

Ymarferwch sylwi ar sut y mae'r amgylchedd yn newid, gan ddefnyddio elfennau naturiol – y gwynt, y glaw a'r haul – fel promptiau ar gyfer chwarae dychmygus, penagored ym myd natur.



Gweithgareddau

Ymgasglwch yn yr awyr agored a gwahoddwch y staff i oedi ac ymgyfarwyddo:

Beth y gallwch ei deimlo ar eich croen? Beth y gallwch ei glywed? Beth sy'n symud o'ch cwmpas?

Mae un person yn enwi elfen naturiol – y gwynt, yr haul, y glaw – ac mae'r staff yn ymateb â symudiadau chwaraegar sydd wedi'u hysbrydoli gan yr elfen honno. Gweithiwch mewn parau. Mae pob pâr yn cael cerdyn elfen a her chwaraegar. Mae'r parau yn archwilio ac yna'n rhannu â'u grŵp.

Offer

- Symbolau elfennau – lluniau
- Cardiau heriau chwaraegar
- Y gwynt – rhubanau, swigod
- Y glaw – llestri, pyllau
- Yr haul – sialc, dŵr

Cwestiynau allweddol

Sut y mae elfennau naturiol yn newid naws, cyflymder a phosibiliadau chwarae?

Pa addasiadau bach a allai wneud eich man awyr agored yn fwy ymatebol i'r tywydd?

Deilliannau dysgu

Mae pob archwiliad o elfen yn annog symudiadau, y dychymyg ac ymwybyddiaeth amgylcheddol er mwyn profi'r amgylchedd fel y mae plant yn ei brofi, gan gydnabod bod y tywydd yn gyd-athro pwerus.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Dewis elfen i greu gwahoddiad bach i chwarae ym myd natur. E.g gwynt a rhubanau; haul, cysgod a defnyddio sialc i greu amlinell; glaw a rhywbeth i'w ddal (bwced, cwpan ac ati).